**Alun Davies AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Cabinet Secretary for Local Government and Public Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref ARD/00502/18

Aelodau'r Cynulliad

3 Awst 2018

Annwyl Cydweithwyr,

Yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 3 Gorffennaf, gofynnodd Julie Morgan AC am ddatganiad ar y cynigion a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ei Strategaeth ar Droseddwyr Benywaidd, yn arbennig y cynigion ar gyfer canolfannau preswyl diogel i fenywod. Dywedodd Arweinydd y Tŷ y byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau.

Ar 16 Gorffennaf, cefais gyfarfod ag Edward Argar AS a Rory Stewart AS, y ddau yn Weinidogion yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n gyfrifol am y polisi carchardai a throseddwyr benywaidd.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, fel y gwyddoch, wedi penderfynu peidio â pharhau i ddatblygu mwy o garchardai i fenywod yng Nghymru a Lloegr. Rwy'n cytuno â'r penderfyniad, ac yn falch eu bod yn mabwysiadu trywydd gwahanol o ran y ffordd yr ydym yn trin troseddwyr benywaidd.

Mae'r gwaith cynllunio cychwynnol i edrych ar y posibilrwydd o ddarparu canolfannau preswyl diogel i fenywod eisoes wedi cychwyn. Rwyf wedi dweud yn glir wrth y Gweinidogion yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder bod diddordeb gennym i edrych ar y potensial i greu canolfan o'r fath yng Nghymru. Maent wedi cytuno y byddwn yn parhau i drafod hyn dros y misoedd nesaf. Maent hefyd wedi cytuno i gydweithio â ni wrth i ni ddatblygu ein dull gweithredu ein hunain ar gyfer rheoli troseddwyr benywaidd. Bydd y gwaith hwn yn parhau dros yr haf a dechrau'r hydref.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y datblygiadau, ac yn gwneud datganiadau pellach lle bo hynny'n briodol.

Yn gywir



**Alun Davies AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus
Cabinet Secretary for Local Government and Public Services